Cartrefi
Cymunedol
Cymru



Cynnig Aelod Bwrdd

2019/20

Rhagair

Mae ein haelodau yn y sefyllfa orau i gyflawni eu huchelgais os oes ganddynt strwythurau llywodraethiant effeithlon yn eu lle ac fel sector, mae arnom ddyletswydd i'r rhai a wasanaethwn i sicrhau y gwnawn hynny.

Mae cymdeithasau tai yng Nghymru yn denu aelodau bwrdd medrus ac angerddol sy'n hybu eu busnesau a gwneud eu cymunedau yn well.

Mae'r busnesau a gynrychiolwch yn gymhleth ac ni fu erioed fwy o bwysau ar fyrddau.

Gan weithio gyda chi, rydym wedi dynodi'r gefnogaeth allweddol yr ydych ei hangen i wneud eich gwaith yn fwy effeithlon ac wedi diweddaru ein cynnig fel canlyniad i'r sgyrsiau hyn.

Mae'ch aelodaeth yn rhoi'r arfau ac adnoddau rydych eu hangen, llwyfan i gael eich llais wedi'i glywed a rhwydwaith gref a chefnogol i'ch helpu i wneud eich gwaith hyd yn oed yn well.

Mae ein cynnig yn amlinellu yr hyn y gall aelodau bwrdd ei ddisgwyl ar gyfer eu haelodaeth a hefyd yn cefnogi'r argymhellion yng nghyhoeddiad Llywodraeth Cymru 'Y Pethau Iawn: Gwella Trefniadau Llywodraethu Cymdeithasau Tai yng Nghymru'.

Rwy'n eich annog i fanteisio'n llawn ar y buddion y mae eich aelodaeth yn eu rhoi, ac yn sôn am lawer ohonynt islaw.

Rydym wrth eich hochr i'ch helpu i fod yn wych.

Stuart Ropke

Stuart Ropke

Prif Weithredydd, Cartrefi Cymunedol Cymru

Ein Gweledigaeth

Cymru lle mae cartref da yn hawl sylfaenol i bawb.

Ein Cenhadaeth

Galluogi tai cymdeithasol Cymru i fod yn wych.

Good governance is fundamental to the success of Housing Associations in Wales."

Ein nod erbyn 2022

- Byddwn yn cael ein hystyried gan aelodau fel corff aelodaeth gwerthfawr iawn ac effeithlon tu hwnt.
- Byddwn yn cael ein cydnabod a'n gwerthfawrogi gan randdeiliaid ac yn defnyddio'r llwyfan hwn i gyflwyno'r achos dros gymdeithasau tai yng Nghymru.
- Byddwn yn defnyddio awydd y sector i wneud pethau'n wahanol.
- Byddwn y llais blaenllaw ar faterion tai yng Nghymru.
- Byddwn yn darparu gwasanaethau rhagorol i aelodau sy'n ychwanegu gwerth ac yn ei gwneud yn rhwyddach i aelodau wneud eu gwaith.
- Byddwn yn sefydliad sy'n gynaliadwy yn ariannol.

Fel aelod bwrdd gwerthfawr, mae buddion aelodaeth yn lluosog ac yn dod dan y categorïau dilynol:

Dylanwadu →

Cysylltu →

Cefnogi →

Hysbysu →

Ein gwaith yw dylanwadu ar eich amgylchedd.

Nid yw hyn yn digwydd ohono'i hun, rydym yn lobïo'n ddiflino drosto.

Fel aelod o fwrdd cymdeithas tai, mae gennych rôl allweddol yn ein gwaith dylanwadu i greu amgylchedd gwell ar gyfer cymdeithasau tai.

Ein gwaith ni yw sicrhau y caiff eich llais ei glywed.

Rydym wedi sefydlu grŵp yn llwyr ar gyfer Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion i gefnogi gwaith lobïo'r sector a rhoi lle i edrych ar y gorwel a dynodi risgiau a chyfleoedd.

Y dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd y Grŵp Cyflenwi Strategol yw:

Mehefin 3 2019

Hydref 1 2019

Ionawr 7 2020

"Rwy'n hyderus fod CHC yn eistedd wrth y byrddau cywir ac yn gweithio i sicrhau y caiff llais aelodau ei glywed ac y gweithredir ar hynny."

- Arolwg Bodlonrwydd Aelodau CHC 2018

Cysylltu gyda Chymheiriaid.

Rhoi llais i chi.

Tyfwch eich rhwydweithiau personol gydag aelodau bwrdd eraill drwy ddigwyddiadau rhwydweithio chwarterol a chiniawau anffurfiol cyn cynadleddau.

Bydd y digwyddiadau hyn yn eich cysylltu gyda dylanwadwyr a rhanddeiliaid allweddol, yn rhoi cyfleoedd anffurfiol i rwydweithio gyda chymheiriaid, rhannu profiadau a chefnogi eich gilydd.

Dyddiadau ar gyfer 2019/20

5th Mehefin 2019

Hugh James, Caerdydd
5:30 – 8:00pm

10th Mawrth 2020

Pre Conference Dinner
Governance

3rd Medi 2019

Hugh James, Caerdydd
5:30 – 8:00pm

20th Mehefin 2019

Deganwy Quay, Conwy
5:30 – 8:00pm

3rd Rhagfyr 2019

Hugh James, Caerdydd
5:30 – 8:00pm

5th Rhagfyr 2019

Deganwy Quay, Conwy
5:30 – 8:00pm

Cysylltu gyda chi ar-lein

Gweminarau

Rydym yn gwybod pa mor brysur ydych a bod amser yn werthfawr. Gorau oll po fwyaf y gallwn ei wneud i gysylltu â chi ar-lein. Byddwn yn cynnal gweminarau rheolaidd i ategu ein gwaith, casglu eich sylwadau a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi .

cofrestru

Yammer!

Bydd gennych fynediad i rwydwaith caeedig Yammer ar gyfer aelodau bwrdd ac un arall ar gyfer cadeiryddion. Defnyddir y grŵp i roi hyfforddiant a chefnogaeth tebyg-i-debyg, rhannu arfer da, arwyddbostio a diweddaru.

"Roedd hon yn ffordd wych i gael llawer o wybodaeth mewn cyfnod byr - roedd peidio gorfod teithio yn fantais fawr ac roedd y cyfle i ystyried cwestiynau ymlaen llaw yn gweithio'n wirioneddol dda."

Cefnogaeth sy'n cyfrif.

Defnyddiwch eich aelodaeth i ddatblygu eich gwybodaeth o'r sector tai a manteisio ar y cyfle i wella eich sgiliau a'ch profiad.

Rydym yma i chi!

Mae hyfforddiant a chynadleddau yn rhan o waith sefydlu a datblygu parhaus ein bwrdd. Rydym yn cyfeirio at raglen CHC pan fyddwn yn cynllunio'r naill a'r llall."

Prif Swyddog Gweithredol, arolwg bodlonrwydd aelodau CHC y rhod

Support

Hyfforddiant Llywodraethiant

Y llynedd fe wnaethom lansio ein ***Cod Llywodraethiant*** i'ch cefnogi i sicrhau llywodraethiant rhagorol. Beth bynnag eich profiad, gallwch yn awr fanteisio o'n rhaglen hyfforddiant newydd fydd yn rhoi'r dulliau, sgiliau hyder a chi i lywodraethu'n dda.

Cefnogaeth Cymheiriaid

Rydym yn rhedeg sesiynau dysgu gweithredol ar gyfer cymheiriaid mewn cysylltiad gyda'r Ganolfan Mentora a Dysgu.

Byddwn hefyd yn eich cefnogi chi a'ch sefydliad drwy gyfnodau heriol.

Fe wnaeth yr hyfforddydd addasu'r deunydd wrth i'r cwrs ddatblygu drwy'r deuddydd. Dangosodd lawer iawn o brofiad, gyda'r gallu i symleiddio cysyniadau ac roedd yr hyn y rhoddodd sylw iddo'n uniongyrchol berthnasol i'n sefydliad."

- Ysgrifennydd Cwmni, Hafod

Mae gwybodaeth yn rymus.

Yn ôl cais, byddwn yn darparu gwybodaeth arbenigol i'ch cyfarfodydd bwrdd a dyddiau cwrdd i ffwrdd i fyrddau.

Rhoddwn wybodaeth a diweddaru ar faterion polisi a gwleidyddol effeithiol. Bydd y rhain ar wedd podlediadau cyfoes, gweminarau, papurau gwybodaeth a seminarau ar feysydd critigol i fusnes.

Mae CHC yn gweithredu fel aelod ychwanegol o'r tîm i'n busnes ac yn rhoi gwybodaeth arbenigol y byddem fel arall yn gorfod ei gyflogi'n uniongyrchol."

- Arolwg Bodlonrwydd Aelodau CHC 2018

Hysbysu

Cynadleddau

Mae ein rhaglen cynadleddau ar gyfer aelodau bwrdd yn canoli o amgylch ein Cynhadledd Llywodraethiant ym mis Mawrth a'n Cynhadledd Flynyddol ym mis Tachwedd.

Rydym hefyd yn cynnal nifer o gynadleddau ar ddisgyblaethau penodol megis Cyllid, Cyfathrebu ac Adnoddau Dynol sydd hefyd yn addas ar gyfer aelodau bwrdd.

gweld ein rhaglen

Adroddiad Cynnydd Chwarterol

Derbyniwch adroddiadau chwarterol ar yr hyn yr ydym yn ei gyflawni ar eich rhan. Mae'r adroddiadau hyn yn rhoi sylw i feysydd cynnydd allweddol yn y meysydd gwaith y gwnaethoch ddweud wrthym eu bod yn bwysig i chi.

gweld adroddiad

"Roedd fy mhresenoldeb cyntaf yn y gynhadledd hon yn wych ac yn brofiad defnyddiol iawn gan ddod 6 mis ar ôl ymuno â bwrdd."

- Adborth aelodau bwrdd, Cynhadledd Llywodraethiant

Cartrefi Cymunedol Cymru

Cysylltu

2 Ocean Way, Cardiff, CF24 5TG → enquiries@chcymru.org.uk → 029 2067 4800